Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Arfaethedig Gosod Giatiau ar Lwybrau Queensway 2021.

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ("Y Cyngor") trwy weithredu ei bwerau dan Adrannau 59, 64 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("Y Ddeddf") a than yr holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud y gorchymyn canlynol a elwir yn: Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Arfaethedig Strydoedd Cefn Queensway 2021.

1. Bydd y Gorchymyn yn berthnasol i'r llwybrau troed a fabwysiadwyd yn Ward Queensway Parc Caia, Wrecsam fel y disgrifir yn Atodlen 1 isod ac fel y dangosir ar y cynlluniau sydd ynghlwm ("cynlluniau'r Gorchymyn") oni bai y nodir fel arall.

2. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y ddau amod isod wedi'u bodloni, sef bod:

(a) gweithgareddau a gynhelir yn yr ardal gyfyngedig fel y disgrifir yn Atodlen 1 wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal leol, neu ei fod yn debygol y bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn y man cyhoeddus a bydd ganddynt y fath rym;
(b) yr effaith, neu effaith debygol, y gweithgareddau, neu'n debygol o fod, o natur gyson neu barhaus, yn, neu'n debygol o fod yn gwneud y gweithgareddau'n afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn.

3. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 10 Mawrth 2021 a bydd yn weithredol am gyfnod o dair blynedd, oni ceir estyniad drwy Orchmynion pellach dan bwerau statudol y Cyngor.

DRWY'R GORCHYMYN HWN

Gwaharddiadau a/neu ofynion

4. Effaith y gorchymyn hwn yw cyfyngu ar fynediad ar hyd y llwybrau troed y cyfeirir atynt yn Atodiad 1 ac a ddangosir ar y cynlluniau sydd ynghlwm, drwy'r amser heblaw ar gyfer perchnogion neu'r bobl sy'n byw yn yr eiddo wrth ymyl y llwybrau dan sylw sy'n cael eu heffeithio gan y gorchymyn hwn sydd angen mynediad i'w heiddo.

5. Mae'r gorchymyn yn awdurdodi gosod giatiau y gellir eu cloi ar Lwybrau a Fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth ymyl/rhwng:

llwybr troed wrth ymyl/rhwng	Cyf Arolwg Ordnans (AO):
85/86 BRYN HAFOD,	SJ34973 49766
94/95 BRYN HAFOD,	SJ35038 49717
82 CEFNDRE,	SJ35203 49626
89 CEFNDRE,	SJ35264 49602
126 CEFNDRE,	SJ35313 49582
59 I 66 GWENFRO,	SJ34757 49984
155 GWENFRO,	SJ34952 50046
37/38 Y WERN,	SJ34826 49861

6. Y llwybrau eraill i gerddwyr fydd:

llwybr troed wrth ymyl/rhwng

91 and 92 Bryn Hafod
118 Cefndre to 1 Gernant
60 to 76 Cefndre
96 and 97 Cefndre
155 to 158 Gwenfro
66 and 67 Gwenfro
48 and 49 Gwenfro
37 38 Y Wern,
38 to 50 Gwenfro
1 Gwenfro

7. Bydd yr Heddlu, y gwasanaethau brys tân ac ambiwlans, ymgymerwyr statudol gydag offer sydd wedi'i leoli o dan, uwch ben, ar hyd neu yn y llwybr, swyddogion y cyngor ac unrhyw unigolion eraill sydd wedi'u hawdurdodi gan y Cyngor, yn cael eu heithrio o ddarpariaethau'r Gorchymyn.

8. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r giatiau.

9. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr amodau sydd wedi'u nodi yn Adrannau 59, 64 a 72 y Ddeddf wedi cael eu bodloni a'i bod hi'n fanteisiol ym mhob amgylchiad i wneud y Gorchymyn hwn at ddibenion lleihau cyfraddau anghymesur o uchel o droseddau meddiangar yn yr ardaloedd cyfyngedig. Mae'r Cyngor yn gwneud y Gorchymyn hwn gan fod yr ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn lleol. Mae effaith neu effaith debygol hyn o natur gyson neu barhaus i wneud hyn yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a gyflwynir gan y Gorchymyn.

Apeliadau

Rhaid cyflwyno unrhyw her i'r Gorchymyn yn yr Uchel Lys gan unigolyn â diddordeb o fewn 6 wythnos ar ôl iddo gael ei lunio. Unigolyn â buddiant yw rhywun sy'n byw yn yr ardal gyfyngedig, yn gweithio yn yr ardal gyfyngedig neu'n ymweld â'r ardal gyfyngedig yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu mai dim ond y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd â'r hawl i herio. Mae'r hawl i herio hefyd yn bodoli pan gaiff gorchymyn ei amrywio gan y Cyngor.

Pan wneir cais gall yr Uchel Lys benderfynu gwahardd gweithrediad y Gorchymyn wrth aros am benderfyniad y Llys, yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd. Mae gan yr Uchel Lys y gallu i gynnal y Gorchymyn, ei ddiddymu neu ei ddiwygio.

Gall unigolion â diddordeb herio dilysrwydd y Gorchymyn ar ddwy sail: nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn, neu i gynnwys gwaharddiadau penodol neu ofynion: neu na chydymffurfiwyd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, er enghraifft ymgynghori.
Pan wneir cais gall yr Uchel Lys benderfynu gwahardd gweithrediad y Gorchymyn wrth aros am benderfyniad y Llys, yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd. Mae gan yr Uchel Lys y gallu i gynnal y Gorchymyn, ei ddiddymu neu ei ddiwygio.

Mae drafft y gorchymyn arfaethedig wedi'i nodi uchod. Gellir darllen y gorchymyn arfaethedig yma www.yourvoicewrexham.net a gwneud sylwadau drwy gwblhau'r arolwg yma http://www.yourvoicewrexham.net/arolwg/1198, neu anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol communitysafety@wrexham.gov.uk erbyn 1 Mawrth 2021.

Dyddiedig 1 Chwefror 2021

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM ym mhresenoldeb

PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU A CHWSMERIAID

ATODLEN 1

Llwybrau Troed Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a fabwysiadwyd wrth ymyl/rhwng:

llwybr troed wrth ymyl/rhwng	Cyf Arolwg Ordnans (AO):
85/86 BRYN HAFOD,	SJ34973 49766
94/95 BRYN HAFOD,	SJ35038 49717
82 CEFNDRE,	SJ35203 49626
89 CEFNDRE,	SJ35264 49602
126 CEFNDRE,	SJ35313 49582
59 I 66 GWENFRO,	SJ34757 49984
155 GWENFRO,	SJ34952 50046
37/38 Y WERN,	SJ34826 49861



STEPHEN T BAYLEY
Prif Swyddog Tai A'r Economi
Chief Officer Housing and Economy
Adran Tai a'r Economi, Ffordd Ruthun, Wrecsam LL13 7TU
Ruthin Road, Wrexham, LL13 7TU.
Telephone 01978 297255. www. wrexham.gov.uk

Crown Copyright. All rights reserved

Coch - Giât ali arfaethedig
Red - Proposed Alley-gate

Gwyrdd - Ffordd Arall
Green - Alternative Route

Bryn Hafod



STEPHEN T BAYLEY
Prif Swyddog Tai A'r Economi
Chief Officer Housing and Economy
Adran Tai a'r Economi, Ffordd Ruthun, Wrecsam LL13 7TU
Ruthin Road, Wrexham, LL13 7TU.
Telephone 01978 297255. www. wrexham.gov.uk

Crown Copyright. All rights reserved

Coch - Giât ali arfaethedig
Red - Proposed Alley-gate

Gwyrdd - Ffordd Arall
Green - Alternative Route

Cefndre



STEPHEN T BAYLEY
Prif Swyddog Tai A'r Economi
Chief Officer Housing and Economy
Adran Tai a'r Economi, Ffordd Ruthun, Wrecsam LL13 7TU
Ruthin Road, Wrexham, LL13 7TU.
Telephone 01978 297255. www. wrexham.gov.uk

Crown Copyright. All rights reserved

Coch - Giât ali arfaethedig
Red - Proposed Alley-gate

Gwyrdd - Ffordd Arall
Green - Alternative Route

Gwenfro



STEPHEN T BAYLEY
Prif Swyddog Tai A'r Economi
Chief Officer Housing and Economy
Adran Tai a'r Economi, Ffordd Ruthun, Wrecsam LL13 7TU
Ruthin Road, Wrexham, LL13 7TU.
Telephone 01978 297255. www. wrexham.gov.uk

Crown Copyright. All rights reserved

Coch - Giât ali arfaethedig
Red - Proposed Alley-gate

Gwyrdd - Ffordd Arall
Green - Alternative Route

Gwenfro



STEPHEN T BAYLEY
Prif Swyddog Tai A'r Economi
Chief Officer Housing and Economy
Adran Tai a'r Economi, Ffordd Ruthun, Wrecsam LL13 7TU
Ruthin Road, Wrexham, LL13 7TU.
Telephone 01978 297255. www. wrexham.gov.uk

Crown Copyright. All rights reserved

Coch - Giât ali arfaethedig
Red - Proposed Alley-gate

Gwyrdd - Ffordd Arall
Green - Alternative Route

Y Wern